


Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Mawrth 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Mawrth 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2016 i cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mick Antoniw AC
Llafur Cymru
Pontypridd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mandy Jones AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



David Melding AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor wrth graffu ar y Bil



Nathan Gill AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad	6
Cylch gwaith y Pwyllgor.....	6
Cyflwyno'r Bil	6
Y cefndir	7
2. Cymhwysedd deddfwriaethol	10
Ein barn ni	13
3. Sylwadau cyffredinol	15
Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.	15
Ein barn ni	16
Eglurder yr iaith a ddefnyddir yn y Bil.....	18
Ein barn ni	19
4. Sylwadau penodol, gan gynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	20
Y cefndir	20
Adran 1 – Isafbris am alcohol	20
Ein barn ni	21
Adran 5 – Cynigion arbennig: prynu sawl eitem o alcohol.....	22
Adran 6 – Cynigion arbennig: cyflenwi alcohol gyda nwyddau a gwasanaethau	22
Adran 7 – Cynigion arbennig: atodol	22
Ein barn ni	23
Adran 22 – hyd y darpariaethau o ran isafbris.....	23
Ein barn ni	25

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i adran 16 o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd gael gwybod enwau'r personau sy'n dod gyda swyddog wrth fynd i fangre..... Tudalen 13

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliannau i'r Bil, gan roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch arfer yr holl bwerau a dyletswyddau o dan y Bil, ac i sicrhau bod y Bil yn cynnwys dyletswyddau priodol i ystyried y canllawiau hynny.
..... Tudalen 13

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylid cyflwyno gwelliant i osod isafbris uned ar gyfer alcohol ar wyneb y Bil.....Tudalen 17

Argymhelliad 4. Ar y cyd ag argymhelliad 3, rydym yn argymell y dylai unrhyw newid yn y dyfodol i isafbris uned am alcohol yn adran 1 y Bil gael ei gyflawni drwy ddefnyddio gweithdrefn uwchgadarnhaol.....Tudalen 17

Argymhelliad 5. Yn ystod dadl Cyfnod 1, rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfiawnhau'r canlynol:

- cynnwys enghreifftiau penodol o gyfrifiadau o'r isafbris cymwys am alcohol ar wyneb y Bil, ac
- egluro sut y bydd yn osgoi'r posibilrwydd o achosi dryswch lle mae'r ffigur a ddefnyddir yn yr enghraifft benodol yn wahanol i'r hyn a geir naill ai ar wyneb y Bil (ein dewis ni) neu mewn rheoliadau. Tudalen 23

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r geiriau "neu'n hwylus" yn adran 22(3).....Tudalen 26

1. Cyflwyniad

Cylch gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21¹ (ac eithrio Rheol Sefydlog 21.8²), ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.
2. Yn ein gwaith o graffu ar Ffiliau a gyflwynir yn y Cynulliad Cenedlaethol, ein dull yw ystyried:
 - materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
 - y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd mewn is-ddeddfwriaeth;
 - a yw gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
 - unrhyw fater arall yr ydym yn ei ystyried yn berthnasol i ansawdd y ddeddfwriaeth.

Cyflwyno'r Bil

3. Ar 23 Hydref 2017, cyflwynodd Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog) Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)³ (y Bil) a Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef.⁴ Mae'r Prif Weinidog wedi awdurdodi Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru**, Hydref 2017

² Mae swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21.8 yn gyfrifoldeb y **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

³ Ar gael ar **dudalen y Bil**

⁴ Llywodraeth Cymru, **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol**, Hydref 2017

Gwasanaethau Cymdeithasol (Ysgrifennydd y Cabinet), fel yr Aelod newydd sy'n gyfrifol am y Bil, o 9 Tachwedd 2017.⁵

4. Cyfeiriwyd y Bil gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 3 Hydref 2017, ac ar 10 Hydref 2017 penderfynwyd y byddai adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol yn cael ei gyflwyno ar 16 Chwefror 2018.⁶ Cafodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ei ymestyn wedyn i 2 Mawrth gan y Pwyllgor Busnes ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.⁷

5. Ar 23 Hydref 2017, cawsom gopi o lythyr⁸ gan y Gweinidog yn amgáu Datganiad o Fwriad y Polisi.⁹

6. Ystyriwyd y Bil gennym yn ein cyfarfod ar 27 Tachwedd 2017, gan glywed tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet a thri o swyddogion Llywodraeth Cymru.

Y cefndir

7. Yn ôl Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymu:

“Amcan pennaf y Bil yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i ysbytai y gellid eu priodoli i alcohol a 8 marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr niweidiol a pheryglus. Yn benodol, mae'r Bil yn cael ei anelu at ddiogelu iechyd yfwyr niweidiol a pheryglus (gan gynnwys pobl ifanc) sy'n dueddol o yfed symiau uwch o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel.”¹⁰

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod y Bil “yn gweithredu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer mynd

⁵ **Llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru at y Llywydd, Aelod sy'n Gyfrifol, Biliau'r Llywodraeth, 9 Tachwedd 2017**

⁶ Y Pwyllgor Busnes, **Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer trafod Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)**, Hydref 2017

⁷ Y Pwyllgor Busnes, **Amserlen ddiwygiedig ar gyfer trafod Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)**, Ionawr 2018

⁸ Llythyr gan Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)**, 23 Hydref 2017

⁹ Llywodraeth Cymru, **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w wneud o dan y Bil hwn**, Hydref 2017

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 14

i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd penodol a hirdymor ynghylch effaith goryfed alcohol yng Nghymru".¹¹

9. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan bersonau penodol, ac yn ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu am lai na'r pris hwnnw.

10. Yn benodol, mae'r Bil:

- yn nodi'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris perthnasol ar gyfer alcohol, drwy luosi cryfder canran yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned (adran 1);
- yn creu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r isafbris uned (adran 1);
- yn creu trosedd i fanwerthwr alcohol gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, o eiddo cymwys yng Nghymru, i berson yng Nghymru, am bris gwerthu islaw'r isafbris am alcohol (adran 2);
- yn gosod rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar yr isafbris uned mewn perthynas ag alcohol a gyflenwir drwy amrywiaeth o gynigion arbennig (adrannau 5-7);
- yn sefydlu trefn orfodi o dan arweiniad awdurdod lleol gyda phwerau i erlyn (adrannau 10-12);
- yn creu pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol (adrannau 13-16), y drosedd o rwystro swyddog awdurdodedig (adran 18) a'r pŵer i roi hysbysiadau cosb benodedig (adran 9).

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi sut y mae'r Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru:

“Nod y Bil hwn, ynghyd â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, yw ategu ymrwymadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen, ac yn ymateb i faterion pwysig o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r dull a ddefnyddir yn y Bil yn cyd-fynd â'r dull cyffredinol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod egwyddorion megis cynaliadwyedd, atal ac ymyrraeth gynnar yn ganolog i wasanaethau cyhoeddus Cymru.”¹²

¹¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1

¹² Memorandwm Esboniadol, paragraff 12

12. Roedd cyflwyno'r Bil yn dilyn ymarfer ymgynghori ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn 2015.¹³

¹³ Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, ***Bil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol***, 15 Gorffennaf 2017

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil yn rhinwedd adran 108 a Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn benodol:

- Paragraff 9: Iechyd a gwasanaethau iechyd;
- Paragraff 12: Llywodraeth leol;
- Paragraff 15: Lles cymdeithasol.¹⁴

14. Mae'r Bil yn debyg o ran diben i Fil a gyflwynwyd a'i paswyd wedi hynny yn Senedd yr Alban. Fodd bynnag, roedd deddfwriaeth yr Alban yn destun her gyfreithiol dan arweiniad Cymdeithas Chwisgi yr Alban. Y brif sail i'r her oedd y gall yr isafbris fynd yn groes i gyfraith yr UE drwy gael effaith andwyol ar fasnach a symud nwyddau am ddim. Ar 15 Tachwedd 2017, dyfarnodd Goruchaf Lys y DU yn unfrydol nad oedd *Deddf Alcohol (Isafbris) (Yr Alban) 2012* yn torri cyfraith yr UE, bod yr isafbris wedi'i dargedu'n briodol, yn gyfreithlon ac yn gymesur ac felly o fewn cymhwysedd Senedd yr Alban.

15. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei fod yn credu bod y Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, sef pwynt y teimlai ei fod wedi'i atgyfnerthu gan farn y Goruchaf Lys ar deddfwriaeth yr Alban.¹⁵ Dywedodd hefyd nad oedd Llywodraeth y DU wedi mynegi unrhyw bryderon sylweddol ynghylch cymhwysedd gyda'r fframwaith presennol yr ydym yn gweithredu ynddo.¹⁶ Fodd bynnag, ychwanegodd, er ei fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd, cred Llywodraeth Cymru fod y sefyllfa hon yn debygol o newid ar ôl pasio *Deddf Cymru 2017*.¹⁷

16. Mae ystyried effaith hawliau dynol yn ofynnol wrth asesu cymhwysedd deddfwriaethol yn rhinwedd adran 108(6) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2016*.

¹⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8 a 9

¹⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor), 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [11]

¹⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [11]

¹⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [15]

17. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn nodi bod Llywodraeth Cymru "wedi'i bodloni bod darpariaethau'r Bil yn cydfynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol".¹⁸ Noda hefyd:

"O ran y gyfundrefn orfodi a gynigir yn y Bil, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi'i bodloni bod y gyfundrefn hefyd naill ai'n cyd-fynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yn arbennig, Erthyglau 6, 8 ac Erthygl 1 o Brotocol 1) neu'n gallu cael ei gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd â'r Confensiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai'r gyfundrefn orfodi arfaethedig yn llwyddo i sicrhau cydbwysedd teg a chymesur rhwng diogelu hawliau y rheini a effeithir gan y pwerau mynediad hynny, ac effeithiolrwydd gorfodi'r gyfundrefn arfaethedig."¹⁹

18. O ran materion sy'n ymwneud â hawliau dynol sy'n gysylltiedig â'r Bil, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

"We think it's human rights compliant. The human rights that are engaged are not absolute rights, and the European Court has accepted that as well. So, this is going back to the Supreme Court judgment: is this a proportionate means of achieving a legitimate aim and within the latitude afforded to states and legislatures? And the Supreme Court definitively said, 'Yes, it is.'²⁰

19. Ymdriniwyd â'r mater sy'n ymwneud â hawliau dynol yng nghyd-destun adran 16 y Bil, sydd, o dan is-adran (1), yn galluogi swyddogion awdurdodedig i fynd i mewn i fangre o dan adrannau 13, 14 a 15 a chymryd unrhyw bersonau eraill y mae'r swyddog yn ystyried yn briodol. Yn benodol, gofynnwyd am eglurhad ynghylch ehangder yr ymadrodd hwn a sut y byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn sicrhau na chaiff ei gam-drin a'i ddefnyddio mewn ffordd na fyddai'n cael ei ystyried yn gymesur. Dywedodd wrthym:

"Well, it's a similar phrasing to some of that used in the recent Public Health (Wales) Act 2017, as it now is, and there's something here about understanding that there's an understood enforcement regime. We're not going to create an entirely separate regime with a new body; these are local authorities exercising their powers, well understood, and they will already have relationships with all of the premises that we're talking about. I think that's important, and it shouldn't be a surprise, therefore,

¹⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 418

¹⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 421

²⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [94]

in the way they would go about their duties, because off-licences and licensed premises understand this already, and they engage with them on a regular basis already. So, I don't think there's any mischief or mystery here. We're trying to set out the most simple regime that is consistent with our most recent piece of legislation as well."²¹

20. Gofynnwyd pam y defnyddiwyd y gair "priodol" yn adran 16(1) yn hytrach nag "angenrheidiol", yn enwedig gan nad yw ei ystyr yn gymwys mewn unrhyw ffordd. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"...this comes back to what barriers and bars you want to set for enforcement action to take place. It's the same formulation we've used in the public health Act about how enforcement powers are to be exercised in practice, and it still sets a bar for the officer to act within. They've still got to exercise their powers within a proportionate and legitimate manner. So, I'm quite comfortable with what is appropriate."²²

21. Pan wthiwyd y mater o "briodol" ddim yn gymwys, dywedodd:

"...it's still got to be how they exercise their powers under the Act, and appropriate to the way in which they exercise their powers of enforcement, and that's the point. So, it's directly relevant to how they exercise the enforcement powers..."²³

22. Ychwanegodd swyddog Llywodraeth Cymru fod Deddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn darparu ar gyfer nifer o ofynion, a byddai un o'r rhain yn golygu y byddai'n rhaid i swyddog sy'n mynd i mewn i fangre gyflwyno ei hun ac unrhyw un sydd gydag ef,²⁴ a dywedodd:

"...they'd be using that same legislation [correction: framework] to govern the trading standards and other regulatory functions that they currently undertake, so, as this Bill is kind of linked in very much to that for its enforcement and implementation, we don't envisage there

²¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [96]

²² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [99]

²³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [101]

²⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [105]

would be an issue with that, but we would pick up the issue of guidance and training in the bespoke guidance that we'll issue.”²⁵

Ein barn ni

23. Nodwn nad oes unrhyw faterion wedi'u codi ag Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud y ddeddfwriaeth hon o dan adran 108 ac Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (fel y mae mewn grym ar hyn o bryd).

24. Nodwn hefyd y caiff hawliau dynol eu cynnwys fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol ac mewn tystiolaeth a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet.

25. Nodwn fod Cod B Deddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog sy'n mynd i mewn i fangre gyflwyno ei hun ac unrhyw un sydd gydag ef. Rydym yn nodi bod yn rhaid i'r swyddog o dan adran 16(2) o'r Bil hysbysu'r meddiannydd o enw'r swyddog. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai gofyniad o'r fath fod yn berthnasol i "bersonau eraill" fel y mae'r swyddog yn mynd i mewn i'r fangre o dan adran 16(1).

26. Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet fod y Bil yn cynnwys ymadroddion tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn *Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*. Yn ein *Hadroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)*,²⁶ mynegwyd pryderon ynghylch hyfforddiant awdurdodau gorfodi. Mae'r pryderon hynny ynghylch hyfforddiant yr un mor berthnasol i'r Bil hwn.

27. Nodwn y bydd canllawiau pwrpasol yn cael eu cyhoeddi mewn perthynas â'r Bil ac felly y pwerau mynediad. Oherwydd hyn, credwn y dylai fod dyletswydd ar y swyddog i ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i adran 16 o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd gael gwybod enwau'r personau sy'n dod gyda swyddog wrth fynd i fangre.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliannau i'r Bil, gan roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi

²⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [107]

²⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ***Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)***, Chwefror 2017

canllawiau ynghylch arfer yr holl bwerau a dyletswyddau o dan y Bil, ac i sicrhau bod y Bil yn cynnwys dyletswyddau priodol i ystyried y canllawiau hynny.

28. Byddai'n rhaid i'r canllawiau gynnwys pwerau mynediad o dan y Bil. Credwn y byddai'r dull hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau cyfredol wedi'u teilwra.

3. Sylwadau cyffredinol

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.

29. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sut y penderfynodd beth i'w roi ar wyneb y Bil a beth i'w adael i'r is-ddeddfwriaeth. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi llunio Bil byr yn fwriadol ac ychwanegodd:

“There’s also the balance of what is better explained either in a memorandum or in regulations. For example, we made a deliberate choice, unlike [correction: like] in Scotland, to keep the price itself off the face of the Bill...

... but then there’s a choice here about something where you would expect that, over time, if this regime is to be successful and take account of evidence and understand whether (a) the evidence you had about the initial setting of the level still makes sense a period of time afterwards, and if we put that on the face of the Bill, we’d have to pass primary legislation to change it, or to take a regulation-making power for Ministers to be able to change the face of the Bill, which legislators in almost all Parliaments have an issue with and don’t like the Government taking power to change the face of a Bill.²⁷

30. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw hefyd at y ffaith bod y pŵer gwneud rheoliadau (a geir yn adran 1(2)) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac felly mae'n rhaid i'r Aelodau bleidleisio drosto hefyd.²⁸

31. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet pam mae adran 1(3) y Bil yn defnyddio enghraifft o £0.50c i ddangos sut y byddai'r isafbris am alcohol yn cael ei gyfrifo.

“The reason why 50p is mentioned on the face of the Bill is that there are examples of how to calculate the price rather than the setting of the price. And, actually, that would remain the same whether the ultimate minimum unit price was 60p or 35p. You’d still go through the same formula to arrive at the answer as to what the minimum unit [correction: delete ‘unit’] price should be. So, that’s an illustrative point

²⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [26 a 28]

²⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [28]

on the face of the Bill to show how it's calculated, rather than the choice that we made about where it's most effective to pitch the minimum unit price at the start point and then subsequently thereafter."²⁹

32. Cydnabu fod Llywodraeth Cymru wedi meddwl rhoi'r isafbris uned ar wyneb y Bil, gan ddweud:

"... there was some consideration about it, because, actually, it's still the challenge of how you then change the face of the Bill, and I'm acutely well aware that legislatures typically don't like Ministers reserving powers for themselves to change what is on the face of legislation."³⁰

Ein barn ni

33. Mae'r isafbris uned ar gyfer alcohol yn elfen sylfaenol o'r Bil ond caiff ei bennu gan ddefnyddio pŵer gwneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn hytrach nag ymddangos ar wyneb y Bil.

34. Mae gennym rai pryderon ynghylch y dull a gaiff ei fabwysiadu ac ailadroddwn yma y dadleuon a gyflwynwyd gennym i Ysgrifennydd y Cabinet yn ein sesiwn dystiolaeth.

35. Drwy roi'r isafbris uned mewn rheoliadau, byddai'n golygu na fyddai unrhyw Aelod Cynulliad yn gallu cyflwyno gwelliant i'r Bil, er enghraifft, i osod pris uwch i ddal grŵp llawer ehangach o yfwyr. Er efallai nad oes gan yfwyr o'r fath broblemau o ran dibyniaeth, gallant fod yn yfed alcohol ar lefel a fydd yn cael effaith ar iechyd. Yr unig opsiwn fyddai ar gael i Aelodau'r Cynulliad fyddai derbyn neu wrthod yr isafbris uned a nodir yn y rheoliadau oherwydd na ellir eu diwygio. Felly, mae'r dull a fabwysiadwyd yn cyfyngu ar bŵer y ddeddfwrfa.

36. Hefyd, mae'n ein taro'n rhyfedd fod y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad ddiwygio'r ffigur isafbris uned a ddefnyddir mewn cyfrifiad enghreifftiol ond nid yr isafbris uned gwirioneddol i fod mewn grym yn y gyfraith.

²⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [37]

³⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [46]

- 37.** Credwn y byddai'n llawer gwell gosod yr isafbris uned ar wyneb y Bil a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r ffigur hwnnw gan ddefnyddio rheoliadau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.
- 38.** Yn ein barn ni, byddai hyn yn arwain at ddadl llawer mwy trylwyr ar egwyddor ganolog y Bil hwn, sef beth ddylai'r isafbris uned fod ar gyfer alcohol.
- 39.** Wrth gyrraedd y farn hon, nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y diwygiadau o ddeddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth, a elwir yn "pwerau Harri'r VIII". Mae'r pwyllgor hwn a'i ragflaenydd wedi mynegi pryder yn gyson ynghylch y defnydd gormodol o bwerau Harri'r VIII a chymhwyso'r weithdrefn negyddol i bwerau o'r fath.
- 40.** Rydym wedi derbyn bod amgylchiadau lle mae defnyddio pwerau Harri'r VIII, er nad yw'n ddelfrydol, yn cynrychioli cyfaddawd synhwyrol a phriodol, yn enwedig lle byddai defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i wneud newidiadau i Ddeddfau presennol yn rhy ormodol. Fodd bynnag, dylai pwerau o'r fath bob amser fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol o leiaf.
- 41.** Felly, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol dadlau y dylid trosglwyddo materion sylweddol o ran polisi cyhoeddus i bwerau gwneud rheoliadau oherwydd efallai y bydd angen newid polisi yn y dyfodol ac nid yw deddfwrfeydd yn hoffi diwygio deddfwriaeth sylfaenol gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i weithredu newidiadau o'r fath.
- 42.** Dylid penderfynu p'un a yw mater yn ymddangos ar wyneb y Bil yn ôl ei arwyddocâd o ran polisi yn hytrach na ph'un a oes angen (neu beidio) newid yn y dyfodol.
- Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno gwelliant i osod isafbris uned ar gyfer alcohol ar wyneb y Bil.
- Argymhelliad 4.** Ar y cyd ag argymhelliad 3, rydym yn argymhell y dylai unrhyw newid yn y dyfodol i isafbris uned am alcohol yn adran 1 y Bil gael ei gyflawni drwy ddefnyddio gweithdrefn uwchgadarnhaol.
- 43.** Gallai gosod yr isafbris uned ar wyneb y Bil hefyd helpu i liniaru unrhyw ddryswch a allai gael ei achosi drwy gael isafbris uned mewn enghraifft benodol ar wyneb y Bil sy'n wahanol i'r isafbris uned a geir mewn rheoliadau. Rydym yn ystyried y defnydd o enghreifftiau penodol ar wyneb y Bil ym Mhennod 4.

Eglurder yr iaith a ddefnyddir yn y Bil

44. Fe wnaethom archwilio sut y defnyddir peth o'r geiriad yn y Bil, er enghraifft, y defnydd o "dygir" yn adran 2(3) ac "amherthnasol" yn adran 2(4), yn ogystal â'r ymadrodd "ac mae ymadroddion cysylltiedig i gael eu dehongli yn unol â hynny" yn adran 3(1).

45. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"... about what your view is on how legislation should be drafted. The word 'adduced' is quite common use for lawyers and for courts, it's got certainty around it, and that's part of the challenge about who you're writing the legislation for. I don't think it really affects the operation of the regime. I think that people who are subject to the law, retailers, will understand perfectly what the law requires of them. I actually think the word 'immaterial' is pretty common and easy to understand. I don't quite understand the need to simplify that ...

.. courts understand perfectly what it is to adduce evidence. It's not that unusual a term when you're coming to actually enforcing and making the powers real."³¹

ac

"...this is actually about trying to provide certainty; so, not just about the common phraseology for adducing in legislation, but also it's directly linked to the Licensing Act 2003 as well. We want to have certainty between the two different pieces of legislation.

When it comes to 'related expressions to be construed accordingly', this is actually the way in which you talk about the supply of alcohol. So, alcohol to be supplied, that has been supplied So, we're trying not to have to redefine every single time that there's slight variation in how 'the supply of alcohol' is used in the Bill. And I don't think that makes it unclear or inaccessible, to be fair ..."³²

³¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [67]

³² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [72-73]

Ein barn ni

46. Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet. Rydym yn cytuno ynghylch yr angen am gyfraith i ddarparu sicrwydd cyfreithiol. Fodd bynnag, rhaid rhoi eglurder i'r rheini yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth, nid i'r llysoedd yn unig.

47. Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn ceisio moderneiddio ei dull o wneud deddfwriaeth ac mewn sawl ffordd rydym yn croesawu'r dull sy'n cael ei fabwysiadu. Fodd bynnag, credwn y dylai ei hawydd i foderneiddio hefyd gwmpasu rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir wrth ddrafftio deddfwriaeth. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn achos o rywbeth sy'n haws dweud na gwneud a gallai fod rhesymau cadarn dros ddull penodol a gaiff ei fabwysiadu a'r defnydd o fwy o iaith sy'n seiliedig ar y gyfraith.

4. Sylwadau penodol, gan gynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Y cefndir

48. Mae'r Bil yn cynnwys naw ar hugain o adrannau ac Atodlen (sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch cosbau penodedig).

49. Bu ein ffocws ar rai o adrannau penodol y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ac un adran sy'n defnyddio darpariaeth machlud.

50. Mae'r Bil yn dirprwyo saith pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. O'r rhain:

- mae 5 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol;
- mae 2 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol;
- nid yw un yn ddarostyngedig i weithdrefn – y pŵer i wneud gorchmynion cychwyn.³³

Adran 1 – Isafbris am alcohol

51. Mae Adran 1(1) yn nodi fformiwla i gyfrifo'r isafbris ar gyfer gwerthu alcohol. Y fformiwla yw:

$$M \times S \times V$$

Ile, M yw'r isafbris uned, S yw cryfder yr alcohol, a fynegir fel rhif cardinal (felly, er enghraifft, os yw'r cryfder yn 5 y cant, bydd y rhif cardinal perthnasol yn 5) a V yw faint o alcohol mewn litrau.

52. Mae Adran 1(1)(a) yn darparu y bydd yr isafbris uned yn cael ei bennu yn y rheoliadau. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (fel y'i nodir yn adran 26(2)(a).)

53. Mae Adran 1(2) yn darparu ar gyfer talgrynnu i'r geiniog gyfan agosaf, tra bod adran 1(3) yn darparu enghraifft o'r cyfrifiad ar gyfer isafbris potel o win, gan ddefnyddio isafbris uned o £0.50.

³³ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5

54. O ran gosod yr isafbris uned drwy reoliadau, dywed y Memorandwm Esboniadol:

“Fe'i hystyrir yn briodol dirprwyo'r pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu ar yr isafbris uned ar gyfer cyflenwi alcohol yng Nghymru am resymau hyblygrwydd, amseroldeb a chywirdeb. Wrth wneud hynny, bydd modd sicrhau y gall Gweinidogion Cymru adolygu a gosod y pris yr ystyrir ei fod fwyaf priodol ar y pryd, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn sicrhau cydbwysedd cywir a chymesur rhwng pwysigrwydd cydnabyddedig y mater a'r gallu a'r hyblygrwydd i ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol i unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau economaidd a chymdeithasol.”³⁴

55. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod y weithdrefn gadarnhaol i'w defnyddio:

“Given its impact on stakeholders and the wider public, it is considered appropriate that the MUP for alcohol to be supplied in Wales will not be set or amended without full consideration and the opportunity for debate.”³⁵

56. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet pa ystyriaeth a roddwyd i ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol ar gyfer y pŵer gwneud rheoliadau. Atebodd:

“... I still think that the affirmative procedure that allows the legislature to have a vote and for the Government to have to bring its case is the right way to go about it. Others will, of course, have their view, but I'm perfectly content that this is the right way to proceed.”³⁶

Ein barn ni

57. Rydym o'r farn nad yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi egluro'n ddigonol pam y byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn opsiwn gwell na gweithdrefn uwchgadarnhaol o ystyried pwysigrwydd sylfaenol yr isafbris uned i amcan polisi'r Bil. Fodd bynnag, rydym yn ailddatgan ein barn, (a fynegwyd yn argymhelliad 3), y dylai'r isafbris uned ymddangos ar wyneb y Bil ac y dylid cyflawni unrhyw newid yn y dyfodol i werth yr isafbris uned drwy weithdrefn uwchgadarnhaol (argymhelliad 4).

³⁴ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 57

³⁵ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 57

³⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [51]

Adran 5 – Cynigion arbennig: prynu sawl eitem o alcohol

Adran 6 – Cynigion arbennig: cyflenwi alcohol gyda nwyddau a gwasanaethau

Adran 7 – Cynigion arbennig: atodol

58. Mae Adrannau 5 i 7 yn nodi'r rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar yr isafbris mewn perthynas ag alcohol a gyflenwir drwy amrywiaeth o gynigion arbennig.

59. Fel gydag adran 1, mae adrannau 5 a 6 yn cynnwys enghreifftiau penodol o destun ar wyneb y Bil, ynghyd â thestun esboniadol ac enghreifftiau pellach yng nghorff y Memorandwm Esboniadol.

60. Fodd bynnag, nid oes enghraifft benodol o'r fath yn digwydd ar wyneb y Bil yn adran 7 nac yn y Nodiadau Esboniadol. Archwiliwyd y rhesymau dros yr ymagwedd a fabwysiadwyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet. Dywedodd:

“To try and make clear the point that you raised at the start about worked examples of how you would work out the minimum price, I think that’s helpful because that is the essential point and purpose. Whereas, in terms of the supplementary parts of it, we actually think that that might be helpful explained further on, and I don’t think that’s actually that complex, to be honest. I don’t think we really need to have an extra part on the Bill there. Like I said, I think this is really quite clear: what we’re doing and why, and how we want to go about it, and the calculation of the minimum price, are there for all to see.”³⁷

61. Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch statws deddfwriaethol y darpariaethau neu a oeddent yn ddisgrifiadol yn unig, dywedodd:

“They’re illustrative, to show how we would go about using the powers set out in the Bill. So, we illustrate how the minimum unit [correction: delete ‘unit’] price would be calculated by reference to the price, the strength and the volume, and we then illustrate what that would look like. Again, I think that the examples themselves are pretty clear,

³⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [63]

actually ... I think there's clarity in the way that's been set out here, which, again, should make it clear for anyone—a lawyer or not.”³⁸

Ein barn ni

62. Er y gallwn weld gwerth mewn cynnwys enghreifftiau penodol o gyfrifiadau o'r isafbris cymwys ar gyfer alcohol ar wyneb y Bil, credwn y gallai fod yn ddryslyd os yw'r isafbris uned wedi'i gynnwys mewn rheoliadau, tra bod gwerth yn cael ei ddefnyddio mewn enghraifft benodol, a allai fod yr un fath neu'n wahanol i'r isafbris uned yn y rheoliadau.

63. Yn yr un modd, os derbynnir argymhelliad 3, byddai'n ddryslyd os yw'r isafbris uned yn wahanol i'r gwerth a ddefnyddir yn yr enghraifft benodol.

64. Nid yw'n glir ychwaith pam na cheir enghraifft benodol o ran adran 7, naill ai ar wyneb y Bil neu yn y Nodiadau Esboniadol.

65. Nid ydym yn credu bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi egluro'n ddigon da pam mae angen rhoi enghreifftiau penodol o gyfrifiadau o'r isafbris perthnasol ar wyneb y Bil, yn hytrach na dim ond eu cynnwys yn y Nodiadau Esboniadol neu mewn canllawiau. Byddai defnyddio canllawiau, a'u diweddarau yn ôl yr angen, yn sicrhau bod dull cyson rhwng yr isafbris uned gwirioneddol a'r ffigur a ddefnyddir mewn enghreifftiau penodol.

Argymhelliad 5. Yn ystod dadl Cyfnod 1, rydym yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfiawnhau'r canlynol:

- cynnwys enghreifftiau penodol o gyfrifiadau o'r isafbris cymwys am alcohol ar wyneb y Bil, ac
- egluro sut y bydd yn osgoi'r posibilrwydd o achosi dryswch lle mae'r ffigur a ddefnyddir yn yr enghraifft benodol yn wahanol i'r hyn a geir naill ai ar wyneb y Bil (ein dewis ni) neu mewn rheoliadau.

Adran 22 – hyd y darpariaethau o ran isafbris

66. Mae Adran 22 o'r Bil yn ei gwneud yn drosedd i fanwerthwr alcohol gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, am bris gwerthu islaw'r isafbris am alcohol. Mae Adran 21 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar weithrediad ac effaith y

³⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [75]

ddeddfwriaeth ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd, gan ddechrau ar y diwrnod y daw'r drosedd o dan adran 2 o gyflenwi alcohol islaw'r isafbris i rym.

67. Mae Adran 22(1) yn darparu ar gyfer y gyfundrefn isafbris a sefydlwyd gan y Bil i roi'r gorau i fod yn effeithiol chwe blynedd o'r dyddiad y daw trosedd adran 2 i rym, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan adran 22(2), cyn i'r gyfundrefn beidio â bod yn effeithiol, gan ddarparu fel arall.³⁹

68. Mae Adran 22(2) yn darparu na all Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i'r perwyl hwn tan o leiaf pum mlynedd ar ôl i drosedd adran 2 ddod i rym. Os na wneir unrhyw reoliadau o'r fath erbyn diwedd y chwe blynedd, mae'r darpariaethau isafbris yn cael eu diddymu. Os caiff rheoliadau eu gwneud, bydd y ddarpariaeth isafbris yn parhau am gyfnod amhenodol oni bai ei bod wedi'i ddiddymu gan Ddeddf ddilynol.⁴⁰

69. Mae'r rheoliadau a wnaed o dan Adran 22(2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd:

“Bydd y darpariaethau isafbris yn cael eu cyflwyno gan Ddeddf Cynulliad. Am y rheswm hwn, ynghyd ag arwyddocâd caniatáu iddynt barhau, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol a'r cyfle a ddarperir ganddi i'r Cynulliad ystyried a chynnal dadl arni yn briodol.”⁴¹

70. Mae Adran 22(3) yn darparu, os yw'r darpariaethau isafbris yn cael eu diddymu ar ôl chwe blynedd, y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth sy'n “angenrheidiol neu'n hwylus” o ganlyniad i'r ffaith honno.

71. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi:

“Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed. Felly, er enghraifft, pe bai Deddf arall yn croesgyfeirio at ddarpariaethau'r isafbris cyn iddynt gael eu diddymu, gallai'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i ddileu'r cyfeiriad hwnnw.”⁴²

a:

“Bydd y rheoliadau'n sicrhau y byddai diddymu darpariaethau'r isafbris yn gweithredu'n briodol. Er enghraifft, i sicrhau tegwch i'r rheini y mae'r

³⁹ Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1 Nodiadau Esboniadol, paragraff 66

⁴⁰ Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1 Nodiadau Esboniadol, paragraffau 66-67

⁴¹ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 58

⁴² Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 6

weithdrefn isafbris arfaethedig yn effeithio arnynt drwy wneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed a ellir ei ystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus bryd hynny.⁴³

72. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

“Mae pwerau dirprwyedig yn addas i roi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed, os ydynt yn ei hystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus yn y cyd-destun hwn.”⁴⁴

73. Mae'r Rheoliadau o dan adran 22(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd bod y pŵer hwn yn cynnwys y pŵer i ddiwygio deddfiadau gan gynnwys Deddfau Seneddol a Mesurau neu Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol.⁴⁵

74. Gwnaethom holi Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y defnydd o gymal machlud. Dywedodd:

“There's something about testing the period of time over which a review should take place. So, it's linked to a five-year review on the operation of minimum unit pricing after it's introduced. So, there's an opportunity to review transparently and to make available to the public, and not just legislators, the initial impact of the piece of legislation on public health, and then to require the Government to make a choice about whether the regime should continue, because we'll have some evidence about the impact, about whether there are any adverse consequences at that juncture.”⁴⁶

Ein barn ni

75. Rydym yn fodlon gyda'r defnydd o gymal machlud ar gyfer y Bil hwn ac fel y nodir yn adran 22.

76. Fodd bynnag, nodwn fod adran 22(3) yn cyfeirio at reoliadau a all wneud darpariaeth o'r fath fel sy'n “angenrheidiol neu'n hwylus” o ganlyniad i'r diddymiad

⁴³ Datganiad o fwriad y polisi, tudalen 6

⁴⁴ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 59

⁴⁵ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalennau 58-59

⁴⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 27 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [53]

o dan adran 22(1). Pe bai Bil yn cael ei ddiddymu, yna yn ein barn ni byddai'r pŵer i wneud newidiadau "angenrheidiol" yn ddigonol.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r geiriau "neu'n hwylus" yn adran 22(3).